14EG CYNGRES
TELYNAU'R BYD

14TH WORLD
HARP CONGRESS

CAERDYDD, CYMRU
CARDIFF, WALES
Gorffennaf 24 - 30 July 2020

ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Maes y Castell, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3ER
Castle Grounds, Cathays Park, Cardiff, CF10 3ER

info@whc2020.wales
www.whc2020.wales

# ENSEMBLE TELYN CYMRU

**Annwyl Delynorion,**

Fi'n siwr eich bod erbyn hyn wedi clywed for 14eg Cyngres Telynau'r Byd yn dod i Gymru y flwddyn nesaf. Yn cael ei chynnal bob tair blynedd, mae'n fraint bod Caerdydd wedi cael ei dewis i groesawu'r Ŵyl ryngwladol yma, yn dilyn llwyddiant dinasoedd megis Hong Kong yn 2017, Sydney yn 2014 a Vancouver yn 2011. A mae newydd gael ei gyhoeddi mai yn St Petersburg fydd yr Ŵyl yn 2023.

Bydd cynifer o delynorion mwyaf blaenllaw y byd yn perfformio, ac yn cynrychioli pob moddau o gerddoriaeth a phob math o offerynnau. Gyda datganiadau, dosbarthiadau meistr, darlithiau, gweithdai, cyngherddau cerddorfaol, cyfweliadau gydag enwogion y byd telyn, grwpiau siambr, rhaglen iechyd, partïon, jazz, cerddoriaeth gyfoes, cynllun Ffocws ar Ieuenctid, clyweliadau cerddorfaol, cerddoriaeth byd, corau o delynau, arddangosfa eang o delynau a nwyddau, mi fydd y Gyngres yma yn ddathliad unigryw am chwe niwrnod llawn, ac yn hanfodol i unrhyw un sy'n caru'r delyn.

Ond efallai na fydd pob telynor ifanc eisiau dod am wythnos gyfan, felly gan ein bod yn awyddus iawn i gynnwys pawb yn y dathliad, hoffwn wahodd pob myfyriwr telyn, pedal a Cheltaidd, o safon Gradd IV ac uwch, i ymuno â Ensemble Telyn Cymru i berfformio yng Nglanfa Canolfan Mileniwm Cymru, yn ystod wythnos y Gyngres, ar y 26ain o Orffennaf. Cyfarwyddwr Cerdd yr ensembl yw Meinir Heulyn. Hi wnaeth drefnu perfformiad y 100 Telyn yn ystod Symposiwm Telyn Ewrop yn 2007, ac mi fydd yn cydweithio gydag athrawon ledled Cymru i baratoi am y perfformiad.

Dyma'r amserlen –

1. Hydref 2019 – ymarferion I ddechrau o dan sylw arweinyddion lleol
2. Ionawr 16eg 2020 – dyddiad cau cofrestru
3. Chwefror 2020 – dau ymarfer ar y cŷd
   *Chwefror 15fed i delynorion Gogledd Cymru yn Galeri, Caernarfon*
   *Chwefror 23ain i delynorion De Cymru yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru , Caerdydd*
4. Ebrill 2020 – dau ymarfer ar y cŷd
   *Ebrill 7fed i delynorion Gogledd Cymru yn Galeri, Caernarfon*
   *Ebrill 19eg i delynorion De Cymru yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd*
5. Gorffennaf 26ain - Ymarfer a Datganiad yng Nglanfa Canolfan Mileniwm Cymru

Os hoffech ymuno â'r prosiect cyffrous yma, rydym yn gofyn i chi gofrestru gyda ffî o £50, i gynnwys pob ymarfer, tanysgrifiad blwyddyn i Gyngres Telynau'r Byd, a thocyn am ddim i gyngerdd Byd o Delynau, yng Nghanolfan y Mileniwm yn hwyrach y noson honno.

Rydym yn gobeithio'n fawr iawn y gwnewch chi dderbyn ein gwahoddiad, a chymryd mantais o'r cyfle arbennig hwn. Mi fydd yn hwyl, a siawns gwych i gyfarfod a chyd-berfformio gyda thelynorion o bob cwr o Gymru. Mi wnaeth Bwrdd Cyfarwyddwyr Cyngres Telynau'r Byd ddewis Cymru fel lleoliad i'r Gyngres yn 2020 oherwydd ei thraddodiadau a'i diwylliant cerddorol unigryw, a hoffwn ni ddangos i delynorion ledled y byd, mai Cymru yn wir, yw Gwlad y Delyn.

**Catrin Finch**
Cyfarwyddwr Artistig
CTB2020

**Caryl Thomas**
Cadeirydd Pwyllgor Cynnal
CTB2020

**Meinir Heulyn**
Cyfarwyddwr Cerdd
Ensemble Telyn Cymru

14EG CYNGRES TELYNAU'R BYD
14TH WORLD HARP CONGRESS
CAERDYDD, CYMRU
CARDIFF, WALES
Gorffennaf 24 - 30 July 2020

ROYAL WELSH COLLEGE OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Maes y Castell, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3ER
Castle Grounds, Cathays Park, Cardiff, CF10 3ER

info@whc2020.wales
www.whc2020.wales

# ENSEMBLE TELYN CYMRU

Dear Harpists,

No doubt you are all aware by now that the 14th World Harp Congress will come to Wales next July. Held every three years, it's a great honour for Cardiff to host this prestigious international event, following on from other wonderful cities such as Hong Kong in 2017, Sydney in 2014 and Vancouver in 2011. And it has just been confirmed that St Petersburg will be the host city in 2023!

So many of the world's greatest harpists will be performing, representing all musical genres and all manner of different harps. With recitals, master-classes, lectures, workshops, orchestral concerts, celebrity interviews, chamber ensembles, discussions, parties, jazz, world music, historical harps, contemporary music, a wellness programme, the Focus on Youth platform, orchestral auditions, harp ensembles, and a large exhibition of harps and accessories, this Congress will be a full six day extravaganza that is a must for any harp enthusiast.

However, it might be the case that some harp students will be unable to commit a whole week to the Congress, and, as we really want to be inclusive of as many harpists as possible, we would like to invite all lever and pedal harpists, of Grade IV standard and above, to join a Wales-wide harp ensemble that will perform in the Glanfa Foyer of the Wales Millennium Centre, during the week of the Congress, on the evening of the 26th July 2020. Meinir Heulyn, who coordinated the 100 Harps performance at the WMC for the European Harp Symposium in 2007, is the Musical Director of the Ensemble, and will be working with teachers throughout Wales to prepare for the performance.

Here is the timetable –

1. October 2019 – rehearsals to start with local leaders
2. January 16th 2020 – closing date for registration
3. February 2020 – two rehearsal sessions
   *February 15th for North Wales harpists in Galeri, Caernarfon*
   *February 23th for South Wales harpists in the Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff*
4. April 2020 – two rehearsal sessions
   *April 7th for North Wales harpists in Galeri, Caernarfon*
   *April 19th for South Wales harpists in the Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff*
5. July 26th – Rehearsal and Performance in the Glanfa Foyer, Wales Millennium Centre

Should you wish to be involved in this exciting project, we ask that you register with a fee of £50, which includes all rehearsals, a year's membership of the World Harp Congress, and a complimentary ticket to the concert, *A World of Harps*, at the WMC after the performance. Further details on how to register can be found at www.whc2020.wales

We very much hope that you will accept this invitation and take advantage of such a wonderful opportunity. It will be great fun, and a great chance to meet and play with fellow harpists from all over Wales. The Board of Directors of the World Harp Congress chose Wales as a host nation because of its harp playing reputation, and we would like to show harpists worldwide, that we really are *The Land of the Harp.*

---

**Catrin Finch**
Artistic Director
WHC2020

**Caryl Thomas**
Chair Host Committee
WHC2020

**Meinir Heulyn**
Musical Director
Ensemble Telyn Cymru